

Hysbysiad dan adran 49(4) Deddf Cyfathrebu 2003

Penderfyniad gan Gyngor Sir Powys i ymateb i gynnig gan British Telecommunications plc i symud blychau ffôn cyhoeddus yn unol â Rhan 2 Atodlen i Gyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Ofcom ar 14 Mawrth 2006 ('y Cyfarwyddyd').

1. Ar 16 Mehefin 2021, cyhoeddodd Cyngor Sir Powys, yn unol ag adran 49(4) Deddf Cyfathrebu 2003 ('y Ddeddf') hysbysiad yn nodi ei benderfyniad drafft mewn ymateb i gynnig gan British Telecommunications plc i symud y blychau ffôn cyhoeddus yn unol â Rhan 2 y Cyfarwyddyd ('yr hysbysiad cyntaf')
2. Anfonwyd copi o'r Hysbysiad Cyntaf at yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag adran 50(1)(b) y Ddeddf.
3. Yn yr Hysbysiad Cyntaf, fe wnaeth Cyngor Sir Powys wahodd sylwadau am y penderfyniad drafft erbyn hanner nos, 14 Gorffennaf 2021.
4. Mae Cyngor Sir Powys wedi ystyried pob sylw ar y penderfyniad drafft a wnaed iddo ac nid yw Ofcom wedi hysbysu Cyngor Sir Powys o unrhyw rwymedigaeth ryngwladol y Deyrnas Unedig i'r diben hwn.
5. Mae'r penderfyniad wedi'i nodi yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.
6. Mae effaith a rhesymau Cyngor Sir Powys dros wneud y penderfyniad wedi'u nodi yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.
7. Mae Cyngor Sir Powys yn ystyried fod y penderfyniad yn cydymffurfio â gofynion adrannau 45 – 50 y Ddeddf, fel sy'n briodol ac yn berthnasol i'r cynigion.
8. Wrth wneud y penderfyniad, mae Cyngor Sir Powys wedi ystyried a gweithredu yn unol â'r chwech o ofynion cymunedol yn adran 4 y Ddeddf.
9. Anfonwyd copi o'r Hysbysiad hwn at yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag adran 50(1)(b) y Ddeddf.
10. Bydd yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn yn rhan o'r Hysbysiad hwn.

Atodlen

Penderfyniad Cyngor Sir Powys mewn ymateb i gynnig gan British Telecommunications plc i symud y blychau ffôn cyhoeddus yn unol â Rhan 2 yr Atodlen i Gyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Ofcom ar 14 Mawrth 2006 ('y Cyfarwyddyd')



Diane Reynolds.

Pennaeth Gwasanaethau Digidol (Economi a Gwasanaethau Digidol).

Person a awdurdodir gan Gyngor Sir Powys i arwyddo'r Hysbysiad hwn.

15 Gorffennaf 2021